# Cyfarfod Agored Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru – 12 Gorffennaf 2023

Bydd y sesiwn yn cynnwys cyflwyniadau gan Ceri Edwards, Cadeirydd Iechyd yr Amgylchedd Cymru a Judith Parry, Cadeirydd Safonau Masnach Cymru.

## Mae’r agenda’n cynnwys:

- Gwaith gweithredu Iechyd yr Amgylchedd
- Gwaith gweithredu Safonau Masnach
- Sut mae’r ASB yng Nghymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol

Mae’r agenda lawn i’w gweld ar dudalen Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru ar ein gwefan.

Mae croeso i unrhyw un sydd â diddordeb yn y pynciau hyn, neu yng ngwaith yr ASB yn gyffredinol, ddod i’r cyfarfod i fynegi barn ac i gymryd rhan mewn sesiwn holi ac ateb agored.

Gallwch fod yn bresennol wyneb yn wyneb neu ar-lein. Mae modd cyflwyno cwestiynau i’r Pwyllgor ymlaen llaw trwy ddilyn y cyfarwyddiadau isod.

## Manylion am y lleoliad

Bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal yn Swyddfa’r ASB yng Nghymru, T? Southgate, Wood Street, Caerdydd, CF10 1EW.

Bydd modd cofrestru a chael paned o 09:15 cyn i’r cyfarfod ddechrau’n brydlon am 09:30.

## Cadw eich lle a chyflwyno cwestiynau

Anfonwch e-bost i walesadminteam@food.gov.uk er mwyn cadw lle i gymryd rhan yn y cyfarfod naill ai wyneb yn wyneb neu ar-lein, cyflwyno cwestiwn neu gael mwy o wybodaeth.